

Côd y Modwl	BMSH4200C / BMSH4200AC
Teitl	Sgiliau Academaidd (Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored)
Dyddiad	09/10/2024
Lefel	4
Credydau	10
Rhagofynion	Dim
Archwiliad DBS	Efallai bydd yn ofynnol ☐ Ddim yn ofynnol ☒

AMCAN(ION)

- Datblygu sgiliau myfyrwyr i astudio'n annibynnol a dysgu gydol oes, a fydd yn ffurfio'r sylfeini ar gyfer cwblhau eu rhaglen astudio yn llwyddiannus a chefnogi cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyrwyr allu:

- dangos y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i fod yn ddysgwr annibynnol cydnerth ac iach.
- arfer egwyddorion ystwythder dysgu;
- defnyddio technoleg addas i gefnogi a gwella eu profiad dysgu yn y maes disgyblaeth.

CYNNWYS DANGOSOL

- Rheoli amser, darllen, ysgrifennu, cyfeirnodu a llên-ladrad, chwilio am ffynonellau gwybodaeth a'u gwerthuso, gweithio ar-lein.
- Meddwl beirniadol: materion yn ymwneud â gwybodaeth, cred ac amheuaeth.
- Ysgrifennu beirniadol: Synthesis, aralleirio a chreu dadl seiliedig ar wybodaeth, gan osgoi llên-ladrad.
- Adfyfrio a hunanadfyfrio.
- Hunaniaeth ac ymdeimlad o le; gan gynnwys gwerthoedd, diwylliant ac ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol, treftadaeth a chynhwysiant ac amlieithrwydd.
- Sgiliau ar gyfer ystod o ddulliau asesu, gan gynnwys blogiau, flogiau, fideos, cyflwyniadau, perfformiadau, posteri, arholiadau a gwaith cwrs ysgrifenedig.
- Sgiliau ac agweddau sy'n ategu gwydnwch, iechyd, llesiant ac ystwythder dysgu; rôl yr ysbryd, meddwl, emosiynau a'r corff.
- Llythrennedd digidol: defnyddio technoleg briodol; cadw'n ddiogel ar-lein, seiberddiogelwch, hunaniaeth ddigidol.
- Gwaith tîm.

Dyraniad Amser Astudio

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu wedi'i amserlennu	22	22%
Dysgu'n annibynnol	78	78%
Dysgu drwy leoliadau	0	0
CYFANSWM	100	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 (*Ticiwch un*)

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
E-bortffolio	Cyferwerth â 1500 o eiriau	100%

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	0
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	0
CYFANSWM	100%

Mae'r modwl hwn yn gysylltiedig ag achrediad y Gymdeithas Therapyddion Chwaraeon ac felly mae'n rhaid pasio pob elfen asesu a bod yn bresennol 80% o'r amser (*ar gyfer myfyrwyr BSc Chwaraeon a Therapi Ymarfer Corff yn unig*).

Mae'r modwl hwn yn bodloni rhai o'r medrau craidd mae'r Gymdeithas Maetheg yn gofyn amdanynt yn rhan o achrediad y rhaglen Maetheg, Gweithgarwch Corfforol ac Iechyd.

RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Côd y Modwl	BMSH4200C / BMSH4200AC	
Teitl y Modwl	Sgiliau Academaidd (Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored)	
Categori	Eitemau'r Rhestr Darllen	Electronig*
Hanfodol	Cottrell, S (2019) <i>The Study Skills Handbook</i> . 5ed arg. Llundain: Macmillan International Higher Education.	☒
Hanfodo	Sesiynau Sgiliau Gwybodaeth y Llyfrgell	☐
Hanfodo	Pears, R. a Shields, G.J. (2019) <i>Cite Them Right: the essential referencing guide</i> . 11eg arg. Llundain: Macmillan International Higher Education.	☐
Pellach	Cottrell, S. (2023). <i>Critical thinking skills: effective analysis, argument and reflection</i> (Pedwerydd argraffiad). Bloomsbury.	☒
Pellach	Hopkins, D. a Reid, T., 2018. <i>The Academic Skills Handbook: Your Guide to Success in Writing, Thinking and Communicating at University</i> . Llundain: Sage.	☐
Pellach	Osmond, A., 2016. <i>Academic Writing and Grammar for Students</i> 2il arg. Llundain: SAGE.	☐